OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 572

# Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009

**Y weithdrefn ar gyfer newid amserau sesiynau ysgolion gan gorff llywodraethu**

**4.**—(1) Pan fo corff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir yn bwriadu gwneud unrhyw newid i amserau sesiynau'r ysgol (neu os mai un yn unig sydd, i sesiwn ysgol), rhaid iddo wneud y canlynol —

(a) cyn cymryd unrhyw un o'r camau a grybwyllir ym mharagraff (b) i (e), ymgynghori â'r awdurdod addysg lleol, y pennaeth a holl staff arall yr ysgol;

(b) paratoi datganiad—

(i) yn dynodi ei fod yn bwriadu newid yr amserau hynny,

(ii) yn pennu'r newid arfaethedig a pha bryd y bwriedir iddo ddod i rym,

(iii) yn tynnu sylw at unrhyw sylwadau ar yr hyn a fwriedir fel y'i rhoddir yn yr atodiad i'r datganiad yn rhinwedd paragraff (c) a chynnwys unrhyw ymateb i'r sylwadau ag y mae'n ei ystyried yn briodol, a

(iv) yn rhoi manylion dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod y mae'n ofynnol iddo'i gynnal yn rhinwedd paragraff (dd) ac yn esbonio y caiff y sawl nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y newid arfaethedig cyn i'r cyfarfod ddigwydd;

(c) os yw'r awdurdod addysg lleol yn gwneud hynny'n ofynnol ganddo, cynnwys fel atodiad i'r datganiad hwnnw unrhyw sylw ysgrifenedig y caiff yr awdurdod ei ddarparu at y diben hwnnw;

(ch) cynhyrchu'r datganiad hwnnw ac unrhyw atodiad mewn unrhyw iaith neu ieithoedd (yn ychwanegol at Gymraeg neu Saesneg), os oes y cyfryw, ag y mae'n ei ystyried yn briodol neu yn ôl fel y caiff yr awdurdod addysg lleol gyfarwyddo;

(d) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau—

(i) bod rhieni pob disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol yn cael copi o'r datganiad ac unrhyw atodiad (yn rhad ac am ddim) o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod y mae'n ofynnol iddo'i gynnal yn rhinwedd paragraff (dd), a

(ii) bod copïau o'r datganiad ac unrhyw atodiad ar gael i'w gweld (ar bob adeg resymol ac yn rhad ac am ddim) yn yr ysgol yn ystod y pythefnos yn union cyn y cyfarfod hwnnw;

(dd) rhoi cyfle i drafod yr hyn a fwriedir mewn cyfarfod sy'n agored i—

(i) pob rhiant i bob disgybl cofrestredig yn yr ysgol,

(ii) y pennaeth a holl staff arall yr ysgol, a

(iii) unrhyw bersonau eraill y caiff y corff llywodraethu eu gwahodd;

(e) ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (b)(iv) ac unrhyw sylwadau a wnaed yn y cyfarfod ar yr hyn a fwriedir cyn penderfynu a ddylid newid yr amserau hynny o gwbl ac (os felly) a ddylid gweithredu'r bwriad gydag unrhyw addasiad neu heb ei addasu.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), os bydd y corff llywodraethu yn penderfynu gweithredu'r newid arfaethedig (naill ai gydag addasiad neu heb ei addasu), rhaid iddo, o leiaf chwe wythnos cyn y bydd unrhyw newid yn yr amserau hynny yn dod i rym—

(i) hysbysu'r awdurdod lleol addysg o'r newid a pha bryd y bydd yn dod i rym, a

(ii) cymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod rhieni pob disgybl a gofrestrwyd yn yr ysgol yn cael eu hysbysu o hynny.

(3) Pan fo'r newid yn ymwneud â—

(a) yr amserau pan yw'r sesiwn ysgol gyntaf i ddechrau neu pan yw'r ail sesiwn ysgol i ddiweddu (neu'r ddau), neu

(b) os mae un sesiwn yn unig sydd, yr amser pan yw i ddechrau neu ddiweddu (neu'r ddau),

rhaid i'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (2) beidio â bod yn llai na thri mis.

(4) Rhaid gweithredu newid i amserau sesiwn ysgol fel y bydd yn dod i rym—

(a) pan fo paragraff (3) yn gymwys, ar ddechrau blwyddyn ysgol; a

(b) ym mhob achos arall, ar ddechrau tymor ysgol.

(5) Mae dull gweithredu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn rhinwedd paragraff (1)(dd) i fod dan reolaeth y corff llywodraethu.